CABINET FEL YMDDIRIEDOLWYR SEFYDLIAD Y GLOWYR, COED DUON

COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MERCHER, 25AIN IONAWR 2023 AM 1.30PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd S. Morgan – Cadeirydd

Cynghorwyr:

J. Pritchard (Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid Hinsawdd), N. George (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol ac Eiddo), C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau), S. Cook (Aelod Cabinet dros Dai), J. Simmonds (Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Chludiant), E. Forehead (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol), P. Leonard (Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd) ac C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Economi a'r Amgylchedd) ac S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151).

Yn bresennol hefyd:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), A. Bolter (Rheolwr Economi Ymwelwyr a Chyrchfannau), E. Tong (Rheolwr Gwasanaethau Theatr a'r Celfyddydau), R. Kyte (Pennaeth Cynllunio ac Adfywio), J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

TREFNIADAU COFNODI A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd y rheini a oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch Yma i Wylio.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3. CABINET FEL YMDDIRIEDOLWYR SEFYDLIAD Y GLOWYR, COED DUON, A GYNHALIWYD AR 15FED MEHEFIN 2022

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed Mehefin 2022 fel cofnod cywir.

4. ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIAD O GYFRIFON SEFYDLIAD Y GLOWYR, COED DUON – Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN AR 31 MAWRTH 2022

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad lle cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad o Gyfrifon am y flwyddyn sy'n yn dod i ben ar 31ain Mawrth 2022 i'r Cabinet fel Ymddiriedolwyr Sefydliad y Glowyr, Coed Duon.

Mynegodd y Cabinet eu diolch i E. Tong, staff Sefydliad y Glowyr, Coed Duon, a'r cyhoedd am eu ffydd a'u cefnogaeth yn y lleoliad, a oedd wedi'i chael hi'n anodd ar ôl y pandemig, ond a oedd bellach yn gweld niferoedd ymwelwyr yn dychwelyd i lefelau cyn-COVID-19, ac yn achos tymor pantomeim 2022, y lefelau presenoldeb uchaf o unrhyw gynhyrchiad blaenorol.

Nododd y Cabinet bryder a godwyd gan Archwilio Cymru mewn perthynas â'r datganiad o gyfrifon blynyddol ac fe'i cynghorwyd bod hyn yn ymwneud â'r ffordd y mae cyfrifon Sefydliad Glowyr, Coed Duon, yn cael eu cofnodi yn y Cyfriflyfr Cyffredinol a'u hargymhelliad y dylid cofnodi hwn fel cofnod ar wahân. Cadarnhaodd y Swyddog Adran 151, oherwydd pwysau o fewn y Gwasanaethau Ariannol, na fu'n bosibl cwblhau'r gwaith hwn yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ond bod ymrwymiad wedi'i wneud i wneud hynny yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Diweddarwyd y Cabinet gan y Rheolwr Gwasanaethau Theatr a'r Celfyddydau ynglŷn â llwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf a thynnodd sylw at y cyd-gynhyrchiad o bwys 'The Invisible Man'. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyd-gynyrchiadau fel hyn a manylwyd ar y cynlluniau ar gyfer tymor newydd y Gwanwyn.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Cabinet fod Sefydliad y Glowyr, Coed Duon, yn gweithio'n galed i weithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosib, ac roedd hynny'n cynnwys symleiddio gwerthiant cynnyrch.

Amlinellwyd gwaith Grŵp Ymgynghorol Sefydliad y Glowyr, Coed Duon, a nododd y Cabinet aelodaeth amrywiol y Grŵp a chyfraniad amhrisiadwy y gwirfoddolwyr hyn i Sefydliad y Glowyr, Coed Duon.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth lawn, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog yn cael ei gymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

Oherwydd y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, PENDERFYNWYD y dylid ystyried, nodi a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Datganiad o'r Cyfrifon a gyfrifwyd ar gyfer Sefydliad y Glowyr, Coed Duon, ym Mlwyddyn Ariannol 2021/22.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:50.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod nesaf.

_____

CADEIRYDD